# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 3

TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

### PENNOD 1

YSMYGU

*Gorfodi*

**18 Awdurdodau gorfodi**

(1) Mae pob awdurdod lleol wedi ei awdurdodi i weithredu fel awdurdod gorfodi mewn perthynas â mangreoedd, mannau a cherbydau sydd yn ei ardal.

(2) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth i brif swyddog heddlu ardal heddlu, yn ogystal, gael ei awdurdodi i weithredu fel awdurdod gorfodi mewn perthynas â cherbydau sydd yn yr ardal heddlu honno.

(3) Rhaid i awdurdod gorfodi orfodi darpariaethau'r Bennod hon a rheoliadau a wneir odani o ran y mangreoedd, y mannau a'r cerbydau y mae, yn rhinwedd yr adran hon, wedi ei awdurdodi i weithredu mewn perthynas â hwy.

(4) Caiff awdurdod gorfodi wneud trefniadau ag awdurdod gorfodi arall i achos y mae'n delio ag ef drwy arfer ei swyddogaethau at ddibenion y Bennod hon gael ei drosglwyddo (neu ei drosglwyddo ymhellach, neu ei drosglwyddo yn ôl) i'r awdurdod arall hwnnw ac i'r awdurdod arall hwnnw ei gymryd drosodd.

(5) Mae cyfeiriadau yn y Bennod hon at swyddog awdurdodedig yn gyfeiriadau at unrhyw berson (pa un a yw'n swyddog i'r awdurdod gorfodi ai peidio) sydd wedi ei awdurdodi gan awdurdod gorfodi at ddibenion y Bennod hon.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 18 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 05 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 18 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**I2** A. 18 mewn grym ar 29.9.2020 at ddibenion penodedig gan O.S. 2020/1048, **ergl. 2(1)(e)**

**I3** A. 18 mewn grym ar 1.3.2021 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2021/202, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 18 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 05 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2